# hyderus o ran anabledd
## CYFLOGWR

Mae Cyngor Sir Ceredigion yn Gyflogwr Hyderus o ran Anabledd. Dyfarnwyd y statws hwn i'r Cyngor gan yr Adran Gwaith a Phensiynau i gydnabod ein hymrwymiad i gyflogi pobl anabl.

Fel cyflogwr Hyderus o ran Anabledd, mae'r Cyngor yn gwirfoddoli i sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni'r camau canlynol.

### Denu a recriwtio pobl anabl

- Mynd ati i geisio denu a recriwtio pobl anabl
- Darparu proses recriwtio hollol gynhwysol a hygyrch
- Cynnig cyfweliad i bobl anabl sy'n bodloni'r meini prawf sylfaenol ar gyfer y swydd
- Dangos hyblygrwydd wrth asesu pobl er mwyn sicrhau bod gan ymgeiswyr anabl y cyfle gorau i ddangos eu bod yn gallu gwneud y gwaith
- Cynnig a gwneud addasiadau rhesymol yn ôl yr angen
- Annog ein cyflenwyr a'n sefydliadau partner i fod yn Hyderus o ran Anabledd
- Sicrhau bod gan weithwyr ymwybyddiaeth briodol o gydraddoldeb anabledd

### Cadw a datblygu gweithwyr anabl

- Hyrwyddo diwylliant o fod yn Hyderus o ran Anabledd
- Cefnogi gweithwyr i reoli eu hanableddau neu eu cyflyrau iechyd
- Sicrhau nad oes rhwystrau i ddatblygiad a chynnydd staff anabl
- Sicrhau bod rheolwyr yn ymwybodol o sut y gallant gefnogi staff sy'n sâl neu'n absennol o'r gwaith
- Gwerthfawrogi a gwrando ar adborth gan staff anabl
- Adolygu’r hunanasesiad Hyderus o ran Anabledd yn rheolaidd